# ytafod

cylchgrawn cymdeithas yr iaith




gwanwyn 2023

# ytafod

Rhifyn **gwanwyn 2023**

Golygyddion: **Mared Llywelyn**
**Carol Jenkins**
Dylunio a Chysodi: **Carwyn Hedd**
Lluniau: **Helen Greenwood**
**Gruffydd Thomas**
**Osian Rhys**


| | |
|---|---|
| Gair o'r Gadair | **Robat Idris** |
| Deddf Addysg Gymraeg i Bawb | **Grŵp Addysg** |
| Ymlaen o'r Gorffennol | |
| Digwyddiadau Eisteddfod yr Urdd | |
| Grym, Gweithredu, Gobaith | |
| Sir Gâr | **Rhanbarth Sir Gâr** |
| Darpariaeth hamdden | **Grŵp Hawl** |
| Deddf Eiddo | **Grŵp Cymunedau** |


**cymdeithas** o bobol sy'n gweithredu'n ddi-drais
dros y gymraeg a chymunedau cymru
fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid




## Gair o'r gadair

Beth am ddewis ambell i agwedd o'r tri phennawd yn ein Maniffesto "Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg"? Mae'r maniffesto yna i'w ddefnyddio a'i drafod, ac er mwyn ystyried sut y medrwn ymateb i'r Gymru a'r Byd aflawen sydd ohoni.

**CYMRU RYDD**
Cafodd ein safle fel baw isa'r domen yn y byd-olwg Prydeinig ei atgyfnerthu drwy goroni Charles Philip Arthur George ar y chweched o Fai, ar gost o £100 miliwn i chi a fi. Dywedir fod y frenhiniaeth yn costio £345 miliwn yn flynyddol i ni. Mae gan y frenhiniaeth eiddo gwerth tua £17 BILIWN! Yn gynwysedig mae Stad y Goron, sy'n golygu nad yw Cymru yn elwa fel y dylai o'i hadnoddau naturiol. Codwyd y gyfran o elw a gaiff y frenhiniaeth gan Stad y Goron o 15% i 25% yn 2017 er mwyn talu am werth £370 o welliannau i Balas Buckingham.

Gwrthun yw'r system "anrhydeddau", sy'n dathlu'r Ymerodraeth ddiflanedig, ormesol a gwaedlyd, a thrist yw'r ffordd y derbynnir y fath bethau gan Gymry amlwg.

Gwrthun yw ymgreiniad rhai o'n prif sefydliadau Cymreig, megis y Sioe Fawr, i'r frenhiniaeth. Mae'n bryd hepgor y teitl "Brenhinol". Fel y dylid hepgor nawdd gan y frenhiniaeth i niferoedd o sefydliadau, o Glwb Rygbi Llanymddyfri i Gymdeithas y Gwartheg Duon a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Gwrthun yw'r rheidrwydd i aelodau ein Senedd dyngu llw o ffyddlondeb i'r frenhiniaeth – rhywbeth nad oes ei angen yng Ngogledd Iwerddon.

Nid oes i frenhiniaeth le yng Nghymru, nac ym Mhrydain, nac mewn unrhyw le yn y byd.

**CYMRU WERDD**
Ar yr un pryd ag y mae cwmnïau Thames Water, Dŵr Hafren-Trent ac eraill am wneud ymgais i ddargyfeirio dŵr am bris ffiaidd o isel o Lyn Efyrnwy ym Mhowys i dde-ddwyrain Lloegr sychedig, mae Dŵr Cymru yn rhybuddio y bydd biliau yn codi oherwydd yr angen i dalu am welliannau fydd yn lleihau llygredd yn ein hafonydd. Ar gyfartaledd yn 2023-24, mae bil blynyddol cwsmeriaid Dŵr Cymru yn £498, sef y trydydd uchaf yng Nghymru a Lloegr, a'r isaf yw £372 gan Hafren-Dyfrdwy.

Tra dywedwn yn glir na fyddem am weld neb heb ddŵr am bris rhesymol a theg, mae cyfiawnder yn mynnu y dylem reoli a pherchnogi ein hadnoddau naturiol ein hunain. Yna gallwn fynd ati go iawn i hybu'r chwyldro gwyrdd. Cofiwn – dŵr yw un o hanfodion bywyd, a bydd yn mynd yn bwysicach fyth wrth i broblemau newid hinsawdd gynyddu. Onid yw hyn yn enghraifft arall eto fyth o ddiwydiant echdynnol sy'n gwneud y nesa peth i ddim i'n pobl?

Mae galluogi ein pobl i fod yn berchen ar ein hadnoddau yn mynd law yn llaw efo galluogi ein pobl i fforddio to uwch eu pennau, a'u galluogi i gael y cyfle o waith boddhaol yn eu cymunedau. Beth am ymestyn y slogan "Nid yw Cymru ar Werth" i gynnwys "Nid yw Dŵr Cymru ar Werth"?!

**CYMRU GYMRAEG**
O'r diwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur gwyn ar Ddeddf Addysg Gymraeg. Dyma gyfle na ddaw am amser maith eto i ddylanwadu a newid y papur gwyn, sydd angen mwy o gadernid a phendantrwydd. Mawr yw dyled aelodau'r Gymdeithas – ac yn wir caredigion y Gymraeg yn gyffredinol – i'r gwaith manwl ac arloesol sydd wedi ei wneud dros sawl blwyddyn gan aelodau Grŵp Addysg y Gymdeithas. Mae'n waith sy'n rhoi cig ac asgwrn ar sloganau ymgyrchu. Bydd y Gymdeithas yn pwyso yn ystod y cyfnod tyngedfennol sydd i ddod er mwyn sicrhau chwarae teg i blant Cymru – pob un ohonynt – i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y byddant yn medru chwarae eu rhan fel dinasyddion cyflawn. Bydd y broses yn cymryd blynyddoedd – nid tasg fechan yw tro llanw Seisnigo ein gwlad, sy wedi mynd rhagddo ers canrifoedd. Mae 80% o blant Cymru yn cael eu hamddifadu o addysg Gymraeg ar hyn o bryd, gyda diffygion amlycach mewn cymunedau difreintiedig, pobl o liw a mudwyr. Cywilydd cenedl yw hyn.

Mae'r Gymdeithas wedi darparu Deddf Addysg Gymraeg yn barod! Mi rydan ni'n hoffi rhoi help llaw i Lywodraeth Cymru! Gallwch ei gweld yma: www.cymdeithas.cymru/dogfen/deddfaddysggymraeg

Byddwn yn annog aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn.

**RALI NID YW CYMRU AR WERTH**
Diolch i bawb a ddaeth i RALI FAWR CAERNARFON ar yr 8fed o Fai, a diolch arbennig i bawb fu'n trefnu ac yn stiwardio.

Mae Cymru gyfan wedi clywed y neges. Neges sy'n mynnu fod hawl ein pobl i gartref yn dod yn hawl go iawn. Neges sy'n dweud fod yn rhaid cael Deddf Eiddo i gyflawni hyn. Ar Ŵyl Banc a fwriadwyd i ddathlu anghyfartaledd, annhegwch, cyfoeth a genedigaeth fraint, mi ddaru ni ddatgan ein bod ni'n ymwrthod â hynny i gyd. Safwn dros werthoedd creiddiol gwareiddiad – ac i ni, Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg yw ymgorfforiad y gwerthoedd hynny.

# Cyhoeddi ein Deddf Addysg Gymraeg i Bawb

## Grŵp Addysg

**Cyhoeddom ein Deddf Addysg Gymraeg i Bawb ar y 27ain o Fawrth, yr un diwrnod â chyhoeddi papur gwyn y Llywodraeth.**


Mae'r Ddeddf Addysg Gymraeg yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i gywiro'r anghyfiawnder presennol lle mae 80% o'n plant yn gadael yr ysgol heb allu siarad Cymraeg.

Rhaid gosod nod hirdymor yn y Ddeddf newydd i roi addysg Gymraeg i bob un plentyn yn ein gwlad.

Drwy gyfrwng y Ddeddf Addysg Gymraeg arfaethedig, mae gan y Llywodraeth gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i sicrhau fod pob plentyn yn ein gwlad yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ffaith bod wyth deg y cant o'n plant yn dal i gael eu hamddifadu o addysg cyfrwng Cymraeg yn warth cenedlaethol, gyda'r anghyfartaledd ar ei waethaf ymysg cymunedau difreintiedig, pobl o liw a mudwyr. Am nad ydyn nhw'n dod yn rhugl yn Gymraeg, mae'n debygol y bydd y bobl ifanc yma'n cael eu hallgáu o gyfleoedd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd am weddill eu bywydau. Ac mewn ardaloedd lle siaredir yr iaith gan fwyafrif y boblogaeth, mae nifer o bobl ifanc yn colli eu sgiliau iaith wrth fynd drwy'r system addysg oherwydd methiannau'r system 'ddwyieithog' a'r drefn asesu.

Mae Deddf Addysg Gymraeg Cymdeithas yr Iaith yn dangos bod modd i'r Llywodraeth ddatgan mewn statud y prif nod mai'r Gymraeg, erbyn 2050, fydd cyfrwng addysg yng Nghymru. Golyga hynny y byddai pob ysgol yn cael ei gosod ar lwybr sy'n symud yn gyson at sicrhau Addysg Gymraeg i Bawb erbyn y flwyddyn honno. Mae hefyd o fewn gallu'r Gweinidog yn y Ddeddf i sicrhau mai Cymraeg fydd cyfrwng pob ysgol newydd, ynghyd â chreu un llwybr dysgu ac un cymhwyster i bawb fydd yn dileu'r arfer cyfeiliornus o gynnig 'Cymraeg Ail Iaith' cwbl annigonol i'r mwyafrif tra bod lleiafrif yn cael cyfleoedd ieithyddol cyflawn.




Mae ein diolch yn fawr i Gymrawd Cyfraith Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru, Keith Bush, am ei gyfraniad allweddol i'r gwaith arbenigol o ddrafftio'r Ddeddf arfaethedig. Mae ei waith wedi galluogi Cymdeithas yr Iaith i drosi ei pholisïau a'i gweledigaeth i iaith y gyfraith gan ddangos y ffordd ymlaen i'r Llywodraeth mewn ffordd hollol ymarferol. Diolch hefyd i'r rhai sydd wedi cyfrannu sylwadau gwerthfawr ers i ni gyhoeddi ein Deddf ddrafft yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, gan ein galluogi i wneud newidiadau pwysig cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol.

Pan fydd y Llywodraeth yn pasio ei Deddf Addysg Gymraeg ei hun, dim ond un o ddau ganlyniad all ddeillio o hynny. Un ai bydd y Gweinidog yn dewis taflu'r drysau ar agor i holl blant Cymru, neu fe fydd yn dewis dyfnhau'r anghyfartaledd ieithyddol drwy allgáu cenedlaethau'n rhagor o blant. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Byddai'r cynigion yn Neddf Addysg Gymraeg Cymdeithas yr Iaith yn gwireddu'r egwyddor honno o'r diwedd.

**Prif nodau Deddf Addysg Gymraeg Cymdeithas yr Iaith**

- Gosod nod statudol ar wyneb y ddeddfwriaeth mai'r Gymraeg fydd iaith addysg yng Nghymru erbyn 1 Medi 2050, fyddai'n golygu bod pob plentyn yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
- Symud pob ysgol, dros amser, ar hyd y continwwm ieithyddol i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Disodli Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gyda thargedau interim statudol cenedlaethol a lleol, yn gysylltiedig â fformiwla ariannu newydd â chymelliannnau refeniw a chyfalaf.
- Gosod targedau statudol o ran recriwtio a hyfforddi'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg, trwy hyfforddiant cychwynnol a rhaglenni hyfforddiant mewn swydd.
- Sefydlu un llwybr dysgu ac un cymhwyster Cymraeg go iawn yn hytrach na pharhad y system ddeuol Cymraeg 'iaith gyntaf' ac 'ail iaith'.

Gallwch ddarllen mwy am ein cynigion ni ar gyfer sicrhau Deddf Addysg Gymraeg i Bawb ar ein gwefan: cymdeithas.cymru/dogfen/deddfaddysggymraeg



# Ymlaen o'r Gorffennol: Chwe deg mlwyddiant ein protest gyntaf



Diolch i'r rhai ddaeth ynghyd i nodi 60 mlynedd ers eu protest ar Bont Trefechan yn enw Cymdeithas yr Iaith ar 2 Chwefror, 1963.

Guto ap Gwent, Llinos Dafis, Menna Dafydd, Ann Eleri Davies, Geraint Eckley, Enid Gruffudd, Robat Gruffudd, Aled Gwyn, Gwyneth John, Hafwen John, Elenid Jones, Geraint Jones, Morwen Rowlands, Gwilym Tudur, Megan Tudur a Gruffydd Aled Williams.

Ar ddiwedd y daith gerdded o amgylch Aberystwyth, cyflwynwyd rhodd i bob un ohonynt fel arwydd o ddiolch am eu safiad.



**Pont Trefechan**

Ar bont Trefechan
o dan draed y palmantwyr a'r cerbydau stond,
ymhlith y dyrnaid cynulliad di-drefn
gwelais ferched Silyn Roberts, Kitchener Davies a 'J.E.',
Jac Daniel, Mathew Williams a Moses Jones,
yn ymunioni o dan fygythiad esgidiau Teds y dref
a phoer dirmyg y Cardis ar eu menter yn dweud na;
ac yn ddiogel o'r tu ôl i'm camera
o ganolbwyntio ar wewyr famau yfory
yn ail-esgor ar ysbryd hen wlad eu tadau
daeth y Saul hwnnw o Darsus i'r meddwl -
gwarchodwyr cotiau
llabyddwyr Steffan.

**Eurion John**

Roedd Gwyneth, gwraig Eurion John, yn un o'r protestwyr gwreiddiol ac yn bresennol yn y dathlu. Diolch yn fawr am gael cyhoeddi'r gerdd yn y Tafod.






## Digwyddiadau Steddfod yr Urdd

**Hawl Iaith – Hawl Iechyd**
**Dydd Llun 29 Mai**

Sgwrs am wasanaethau iechyd yn Gymraeg gyda Non Parry, Dr Llinos Roberts, Iestyn Gwyn Jones

**Cyflwyno Galwad Sir Gâr**
**Dydd Iau 1 Mehefin**

Sir Gâr welodd y cwymp mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021.

Roedd yr un peth yn wir ddeng mlynedd yn ôl, felly mae Cyngor Sir Gâr wedi dechrau mynd ati i geisio adfer y Gymraeg yn y sir ond mae rhai pethau mae angen i Lywodraeth Cymru weithredu arnyn nhw nawr.

Byddwn ni'n cyflwyno galwad gan bobl y sir i'r Llywodraeth weithredu dros y Gymraeg a chymunedau Sir Gâr.

Dewch i'r stondin ar y maes i lofnodi ein galwad ar Lywodraeth Cymru i weithredu, neu arwyddwch yma: cymdeithas.cymru/deiseb/galwadSirGar

**Deddf Addysg Gymraeg i Bawb**
**Dydd Gwener 2 Mehefin – 1pm ymlaen**

Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar Bapur Gwyn y Bil Addysg Gymraeg – mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i sicrhau fod pob plentyn yn ein gwlad yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.

Felly mae dy ymateb di i'r ymgynghoriad yn bwysig – dere i'r stondin am sgwrs anffurfiol am y Bil a sut i ymateb.

### EISTEDDFODWYR!

**Dewch i'r stondin i ddanfon neges at y Llywodraeth i fynnu addysg Gymraeg i bawb, i gael sgwrs am yr hyn sy'n digwydd yn eich hardal chi, i ymaelodi neu i brynu nwyddau.**

# GRYM GWEITHREDU GOBAITH

Cynhaliwyd cyfarfod agored yn Neuadd Goffa Llanrhystud ddydd Sadwrn, 1 Ebrill fel rhan o'n penwythnos preswyl blynyddol.









Cafwyd trafodaethau ar sut i wireddu ein maniffesto *Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg*, gwybod eich hawliau o ran protestio a chyfle hefyd i werthuso'n hawliau iaith a thrafod camau nesaf ein hymgyrchu. Diolch i bawb a arweiniodd y sesiynau hyn ac i bawb a ddaeth i gyfrannu at y trafodaethau. Bydd y gwaith yn parhau ac, os hoffech chi fod yn rhan o hyn, beth am ymuno ag un o'r grwpiau ymgyrchu? Ebostiwch post@cymdeithas.cymru am fwy o wybodaeth.

# Sir Gâr

Unwaith eto, mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos fod y cwymp mwya yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg wedi bod yn Sir Gâr. Yn 2011, syrthiodd canran y siaradwyr Cymraeg yn y sir o dan 50% am y tro cyntaf, a doedd ond dwy neu dair cymuned ar ôl gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg. Erbyn 2021, roedd canran siaradwyr Cymraeg y sir wedi syrthio o dan 40%, a dim ond dwy neu dair cymuned gyda dros 60% o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl y tuedd hwn, mae'n bosib na fydd yr un gymuned ar ôl yn y sir erbyn diwedd y ddegawd hon lle mae mwyafrif y trigolion yn siarad Cymraeg. Ar Faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri, Cymraeg fydd y brif iaith a bydd hi'n berthnasol i bawb, ond nid dyna fydd y realiti yn y sir yn ystod yr wythnosau, y misoedd a'r blynyddoedd yn dilyn yr Eisteddfod.

Mae'r cwymp mor ddychrynllyd fel bod galwad Cymdeithas yr Iaith yn fwy gwir nag erioed: "Os yw'r Gymraeg i fyw, rhaid i bopeth newid".

Fydd cynnal digwyddiadau neu gymdeithas Gymraeg yng nghanol prif ffrwd bywyd Saesneg ddim yn ddigon, fydd sefydliadau Cymraeg ar gyfer y lleiafrif sy'n gofyn ac yn fodlon nofio'n erbyn y lli yn ddigon. Rhaid i BOPETH newid!

Mae arwyddion gobeithiol. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011, pwysodd Cymdeithas yr Iaith yn drwm ar Gyngor Sir Caerfyrddin i newid ei ffyrdd a rhoi arweiniad wrth adfywio'r iaith a chymunedau Cymraeg. Ymatebodd nifer o gynghorwyr, daeth cynghorwyr newydd, ac arweinwyr newydd a swyddogion newydd gydag ymlyniad at y Gymraeg.



Sefydlwyd Fforwm Iaith Sirol o gyrff a mudiadau'r sir, a chwaraeodd Cymdeithas yr Iaith ran lawn yn y frwydr. Rydyn ni wedi cynnal fforwm cyhoeddus blynyddol "Tynged yr Iaith yn Sir Gâr", a chytunodd cynghorwyr a swyddogion i fynychu'r fforwm a bod yn atebol wrth drafod gwahanol agweddau ar y broblem. Daeth y Gymraeg yn hyglyw yn siambr a swyddfeydd y Cyngor, daeth ysgolion ar hyd continwwm tuag at addysg Gymraeg, a chymerwyd y camau cyntaf tuag at atal yr allfudiad o bobl ifainc o'r sir a'r nod o gynnal cymunedau Cymraeg yn hanfodol i bolisïau tai, cynllunio a datblygu economaidd.

Yn Eisteddfod yr Urdd eleni yn Llanymddyfri, bydd Fforwm Iaith Sirol Caerfyrddin (dan gadeiryddiaeth Meri Huws) yn lansio'i Strategaeth Hybu'r Gymraeg newydd. Y nod yw gwneud y Gymraeg yn brif iaith y sir, a daw Cynllun Gweithredu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob maes o fywyd i gyflawni hynny. Mae Cymdeithas yr Iaith yn rhan o'r symudiad hwn, ac yn anogaeth gyson, ond rydyn ni nawr yn galw ar Lywodraeth Cymru hefyd i chwarae ei rhan!




Mae Cymdeithas yr Iaith yn Sir Gâr yn gofyn beth yw pwynt addysg Gymraeg i ieuenctid y sir a hyrwyddo diwylliant Cymraeg bywiog os bydd y mwyafrif yn cael eu gorfodi i symud o'r sir oherwydd diffyg cartrefi a diffyg gwaith?



Dim ond llywodraeth ganolog all basio Deddf Eiddo i flaenoriaethu pobl leol a sicrhau mai nod polisïau tai a chynllunio yw darparu cartrefi (i'w prynu a'u rhentu) i bobl leol.

Dim ond llywodraeth ganolog all greu canllawiau newydd i sicrhau fod cynnal cymunedau lleol yn un o brif amcanion datblygu economaidd.

Mewn rali yng Nghaerfyrddin ym mis Ionawr, cyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith ALWAD 7 PWYNT GAN BOBL SIR GÂR AR LYWODRAETH CYMRU – cymdeithas.cymru/dogfen/galwadausirgar.

Yn syth ar ôl i Fforwm Iaith Sir Gaerfyrddin gyhoeddi ei strategaeth newydd ar faes yr Eisteddfod ar brynhawn Iau 1af Mehefin, bydd dirprwyaeth o Gymdeithas yr Iaith yn mynd ymlaen â'r alwad hon o Sir Gâr i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan. Byddwn yn cyflwyno deiseb wedi'i llofnodi gan gannoedd lawer o bobl Sir Gâr. Dewch gyda ni at stondin Llywodraeth Cymru bnawn dydd Iau Eisteddfod yr Urdd!

Os ydych chi'n byw yn y sir, yn hanu o'r sir neu gyda chysylltiad agos â Sir Gâr, llofnodwch y ddeiseb ar ein gwefan: cymdeithas.cymru/deiseb/galwadSirGar. Mae copïau papur ar gael gan bethan@cymdeithas.cymru er mwyn casglu enwau.

Diolch i Gyngor Sir Caerfyrddin am ymateb – mae angen yn awr i Lywodraeth Cymru weithredu hefyd! Galwad o Sir Gâr ar Lywodraeth Cymru – Creu Fframwaith i'r Iaith Ffynnu

**Deddf Addysg Gymraeg i Bawb**
Mae angen Deddf Addysg Gymraeg (fel sydd wedi'i haddo) i alluogi ysgolion i symud yn fwy dirwystr ar hyd y llwybr tuag at addysg Gymraeg i bawb, ac i gynllunio gweithlu digonol

**Deddf Eiddo**
Mae angen Deddf Eiddo (addawyd Papur Gwyn ar y mater) i sefydlu fod y stoc tai i'w hystyried yn adnoddau cymdeithasol i darparu cartrefi i bobl yn eu cymunedau, yn hytrach na bod yn asedau masnachol i greu elw hapfasnachol

**Cynllunio ar gyfer Iaith a Gwaith**
Mae angen methodoleg glir i ddangos sut y gellir gwneud cynnal yr iaith a chymunedau Cymraeg yn un o amcanion strategaethau datblygu economaidd

**Cynnal Cymunedau Gwledig a Bywoliaeth mewn Amaeth**
Mae angen strategaeth glir ym maes amaeth a datblygu gwledig i gydbwyso'r buddsoddiadau yn y dinas-ranbarthau ac i hybu cynaliadwyedd cymunedau gwledig

**Menter Ddigidol Gymraeg**
Mae angen sefydlu Menter Ddigiol Gymraeg, o bosib â'i phencadlys yn yr Egin, ar ben y Mentrau Iaith tiriogaethol

**Iaith Gwasanaethau Cyhoeddus**
Mae angen cryfhau trefn Safonau'r Gymraeg fel bod modd i bobl Sir Gâr gael gwasanaethau a byw eu bywyd drwy gyfrwng y Gymraeg – gyda sylw arbennig i'r sector Iechyd a Gofal a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Iaith Gwaith Bob Dydd**
Mae angen cryfhau'r Gymraeg fel iaith gwaith trwy sicrhau – mewn cydweithrediad â'r Coleg Cymraeg a sefydliadau fel Coleg Sir Gâr – bod cyfran lawer helaethach o brentisiaethau a chyrsiau addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Darpariaeth hamdden a chyfarfod Comisiynydd y Gymraeg

## Grŵp Hawl

### Siân Howys

Mae aelodau'r Grŵp Hawl wedi bod yn brysur dros y misoedd diwethaf. Cawsom gyfarfod gyda swyddog o Gyngor Wrecsam ac aelod cabinet dros y Gymraeg er mwyn galw eto ar y Cyngor i sicrhau bod darpariaeth hamdden, yn enwedig gwersi nofio i blant, ar gael yn Gymraeg. Mae'r alwad yma yn un ar gyfer pob awdurdod lleol a chyrff hamdden trwy Gymru.

Rydym hefyd wedi cyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg wrth iddi ddechrau ar ei swydd a galw arni i ddefnyddio holl ystod pwerau'r swydd er mwyn sicrhau bod cyrff yn cwrdd â'u gofynion statudol a bod pobl Cymru yn gwybod eu hawliau ac yn cael pob cefnogaeth i ymarfer yr hawl i weld, clywed a defnyddio'r Gymraeg.

Rydym wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar osod safonau ar y Cwmnïau Dŵr, a byddwn yn craffu ar gynnydd y safonau iaith ymhellach. Yn gyson mae'r cyhoedd yn dod atom am gefnogaeth gyda llu o enghreifftiau o ddiffyg gwasanaeth Cymraeg ac rydym yn barod iawn i gefnogi wrth gwrs. Ym mhenwythnos preswyl y Gymdeithas, trafodwyd yr angen i gychwyn ymgyrchu ym maes banciau unwaith eto ynghyd â siopau mawrion a thrafnidiaeth. Mae mawr angen adeiladu'r achos dros gael hawliau cyfreithiol i'r Gymraeg yn y sector breifat.

Os oes gen ti ddiddordeb mewn ymuno yng ngwaith y Grŵp neu os oes gen ti enghreifftiau o ddiffyg gwasanaeth Cymraeg, neu os hoffet drafod dy syniadau di am sut allwn fynd ati i ymgyrchu yna, paid oedi: cysyllta gyda sian@cymdeithas.cymru








# Deddf Eiddo

## Grŵp Cymunedau

### Jeff Smith

Ar hyn o bryd mae'r farchnad dai yn trin tŷ fel ased i wneud elw ohono yn hytrach na chartref i fyw ynddo. Mae hyn wedi gyrru prisiau i fyny gan olygu nad oes modd i bobl ar gyflogau lleol fforddio cartref yn eu hardal leol.

Mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a'r Llywodraeth yn addo Papur Gwyn Deddf Eiddo a Rhenti Teg, gyda chynigion ar gyfer hawl i gartref digonol.

Y cam cyntaf fydd cyhoeddi Papur Gwyrdd, ond mae lle i bryderu na fydd y Llywodraeth – o ddiffyg ewyllys gwleidyddol neu oherwydd natur geidwadol y gwasanaeth sifil – yn mentro trafod rheoli'r farchnad breifat nac yn mentro gwrthdaro â San Steffan ar y mater.

Ar ben hynny, bydd etholiad cyffredinol yng Nghymru mewn tair blynedd, felly bydd angen dewrder a chadernid egwyddorol i greu deddfwriaeth ddadleuol – ond angenrheidiol – yn y misoedd olaf.

Yn dilyn ymgyrchu a lobïo torfol, mae'r Llywodraeth wedi ildio, gan roi grymoedd newydd i awdurdodau lleol gyfyngu ar ormodedd ail gartrefi a llety gwyliau. Mae angen pwysau nawr i sicrhau camau radical fydd yn mynd at wraidd y broblem – sef y farchnad agored, sy'n ffafrio'r rhai sy'n ddigon cyfoethog i gynnig y pris uchaf.

Mae'n glir bod angen newid y system tai. Gallai Deddf Eiddo fydd yn newid holl sail polisïau tai a chynllunio, er mwyn i dai a thir gael eu gweld yn bennaf yn asedau cymunedol i ddarparu cartrefi i bobl yn eu cymunedau, wneud hynny.

Os na ddaw Deddf Eiddo yn y tymor seneddol presennol, mae perygl na fydd llywodraeth yn ailymweld â'r mater am ddegawd arall, nes bod gyda ni ddim cymunedau Cymraeg ar ôl. Rhaid i'r Llywodraeth ddechrau'r broses honno nawr felly a chyflwyno Deddf Eiddo sy'n mynd at wraidd y broblem tai – y farchnad agored.

Mae angen dal i bwyso am hynny – neu bydd buddiannau ariannog yn parhau i gael eu ffafrio, ar draul cymunedau Cymru.

Mae cynigion Cymdeithas yr Iaith ar gyfer Deddf Eiddo yn argymell:

- Sicrhau'r Hawl i Gartre'n Lleol
- Cynllunio ar gyfer Anghenion Lleol
- Grymuso Cymunedau
- Blaenoriaethu Pobl Leol
- Rheoli'r Sector Rhentu
- Cartrefi Cynaliadwy
- Buddsoddi mewn Cymunedau

